



Dathlu`r Deugain
11:03:15
Neges gan Nia Parry
Jones

Mair a chyd aelodau,

Bu noson Dathlu`r Deugain gyda chi aelodau MyW Bethel yn werth chweil. Cefais gryn fwynhad yn gweld a sgwrsio gydag amryw o`r aelodau gwreiddiol, a dwyn i gof atgofion difyr. Braff oedd cyfarfod yr aelodau presennol yn ogystal. Roeddwn innau newydd briodi ac yn fy ugeiniau cynnar yn symud i fyw i Stad Eryri, Bethel yn 1973. Cofiaf yn dda am Mair Price yn dod i gnocio ar y drws gyda`i gweledigaeth am ffurfio Cangen o FyW, ac roeddym i gyd mor frwdfrydig dros y syniad. Da oedd sefydlu`r gangen i roi cyfle i ni fel newydd ddyfodiaid gael dod i adnabod y merched a`r trigolion lleol, a chael cryn fwynhad yn cymdeithasu.

`Roedd yn gyfnod cynnar i`r Mudiad bryd hynny, a ninnau o`i fewn yn magu cangen fechan newydd. Cawsom amser difyr a phrysur pan oeddym yn cyd weithio`n braff a chynnes i`w sefydlu. Trwy`r Mudiad mi rydw i fel chwithau wedi cael blasu profiadau amheuthun, a dysgu llawer o sgiliau newydd, ac wedi prentisio fel Ysgrifennydd a Llywydd sawl cangen, a bod yn aelod o`r pwyllgor, ond sylwch na fum i yn drysorydd !! (Gwyddai pawb nad fi fyddai`n edrych ar ol y cyfri banc, am wn i !!).

Fel aelodau o`r Mudiad rydym wedi ymateb i sawl sialens, ac wrth gwrs mae pob datblygiad yn anochel, ac fel y mae pethau wedi newid - doedd prin nemor son am Ddysgwyr yn ein canghennau yn y dyddiau hynny, ond diolch am aelodau gweithgar sydd wedi rhoi help iddynt ddysgu`r Gymraeg fel eu bod yn dod i barchu a derbyn ein diwylliant. Diolch am y rhai sy`n gwirfoddoli i fod ar Is bwyllgorau megis yr Anabl, a Chwaraeon, Cystadlu a.y.y.b.. Mae cyfraniad aelodau MyW yn fawr a hael iawn yn lleol a Chenedlaethol, gan sylweddoli y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn aelod. Da yw gweld ein bod yn anelu at fod yn deilwng o`n traddodiadau ac o ynni cynhyrchiol ein gorffennol. Diolch am eich brwdfrydedd.

Fe wnes i dderbyn y gwahoddiad i ddod i`r dathlu yna gan ddioch a chydadnabod sail fy nyled bersonol i chi aelodau MyW Bethel am feithrin fy niddordeb yn y Mudiad ac ymhyfrydu eich bod yn gangen gref o hyd.

Cefais fagwraeth dda o fewn y gangen a`r Mudiad, a dyna ddyled na allaf i ei thalu, - ond gallaf ei chydabod.

Daliwch i dderbyn maeth o`r Mudiad sydd wedi cael ei adeiladu ar sylfaen gadarn.

Cyn gorffen, dymunaf ddiolch am y pryd bwyd bendigedig, am flas u`r gacen hardd, am y gwaith trefnu anhygoel i wneud y noson mor llwyddiannus, am yr arddangosfa ddiddorol, y barddoniaeth safonol a sgwrs y Llywydd, a chyfraniad cynnes Gwenan Gibbard. Noson fendigedig yn wir, a da oedd gweld cofnod o`r cyfan ar eich gwefan. Diolch am eich croeso a`ch hawddgarwch. Dwi`n siwr i bawb fynd adref yn fodlon iawn.

Nia Parry Jones
(*Caeathro*)

Cofion cynnes iawn at Beti. xxx